# YMATEB LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU I ADRODDIAD Y PWYLLGOR ARCHWILIO 02-03(2): "CAFFAEL MEDDYGINIAETHAU GOFAL SYLFAENOL"

**Argymhelliad:**

i) **bod Adran GIG y Cynulliad yn monitro'r gwahanol brisiau a delir gan y sectorau gofal sylfaenol ac eilaidd cyn gwneud newidiadau i'r trefniadau ar gyfer caffael meddyginiaethau gofal sylfaenol dethol;**

**Cytuno.** Rydym yn cytuno ei bod yn bwysig deall y rhesymau cymhleth am y prisiau, a monitro'r gwahanol brisiau a delir gan y sectorau gofal sylfaenol ac eilaidd, cyn gwneud newidiadau i'r trefniadau ar gyfer caffael meddyginiaethau gofal sylfaenol dethol. Fodd bynnag, mae'n bwysig fod cyffuriau sy'n cael eu hystyried fel rhai addas ar gyfer eu caffael yn ganolog hefyd yn cael eu dethol ar sail tystiolaeth gref o effeithiolrwydd yn hytrach nag ar sail cost yn unig. Y cyffuriau a fyddai'n arbennig o addas ar gyfer hyn yw'r rheini sy'n cael eu hystyried i fod yn driniaethau dewis cyntaf ar gyfer clefydau cyffredin ac sy'n cael eu hategu gan dystiolaeth gadarn. Nid y cyffuriau hyn o angenrheidrwydd yw'r rhai sy'n amrywio fwyaf o ran pris.

**Argymhelliad:**

ii. **bod Adran GIG y Cynulliad yn mynd ar ôl contractau canolog ar gyfer meddyginiaethau gofal sylfaenol ar sail y cyngor a'r cynigion y mae'n eu cael gan y Grwp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan**;

**Cytuno.** Y cyngor a gafwyd gan y Grwp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG) a'r adborth a gafodd gan ddau is-grwp AWMSG, Fforwm Diwydiant GIG a'r Grwp Cynghori ar Ragnodi Cymru Gyfan, oedd na ddylid bwrw ymlaen â gweithredu caffael canolog, hyd yn oed fel rhan o gynllun peilot, ar sail y wybodaeth yn yr adroddiad. Yn benodol nid oedd unrhyw barti yr ymgynghorwyd ag ef yn ystyried yr arbedion a ragwelwyd o gaffael canolog yn rhywbeth cyraeddadwy ac roedd pawb o'r farn y byddai goblygiadau cyfreithiol yr argymhelliad yn gwneud y Cynulliad yn agored i'w herio. Mae'r AWMSG o'r farn y gellir cyfiawnhau'r sylwadau hyn ac mae'n argymell yn gryf y byddai'n ddoeth i'r Cynulliad, os yw'n dymuno mynd ar ôl contractau caffael canolog, gynhyrchu modelau manwl wedi'u costio sydd wedyn yn agored i ymgynghoriad llawn. (Atodir ymateb llawn AWMSG yn Nogfen 1).

Felly rydym wedi gofyn i Dîm Menter Caffael Cymru ymgynghori â chyd-weithwyr caffael yn y

Sector Iechyd i weld a allant weithio ar gynigion ar gyfer caffael canolog yn y maes hwn. Bydd angen datblygu'r rhain yng ngoleuni unrhyw gynnydd gan yr Adran Iechyd ar wneud newidiadau i'r trefniadau ad-dalu meddyginiaethau generig ledled y DU a fyddai'n gwneud contractau canolog yn amhriodol a newidiadau i gynigion i ddiwygio'r Cynllun Rheoleiddio Prisiau Fferyllol (PPRS) sy'n cael ei weithredu gan yr Adran Iechyd ar ran y gweinyddiaethau datganoledig. Atodir manylion cynigion diweddaraf yr Adran Iechyd yn Nogfen 2.

**Argymhelliad:**

iii) **bod Adran GIG y Cynulliad yn asesu pa mor ddigonol yw'r Cynllun Fferyllfa Fach Hanfodol fel modd o ymdrin ag effaith ansefydlogi posibl contractau canolog a'i bod yn defnyddio ei phwerau i ddiwygio'r cynllun os yw'n cael ei asesu i fod yn annigonol**;

**Cytuno**. Mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru y pwerau i ddiwygio'r cynllun yn ôl yr angen. Fodd bynnag, gall newidiadau i'r fframwaith cytundebol ar gyfer fferyllwyr cymunedau, sy'n cael ei drafod ar hyn o bryd, arwain at ddiwygiadau i'r Cynllun Fferyllfa Fach Hanfodol. Gellid gwneud trefniadau amgen er mwyn rhoi sylw i effeithiau ansefydlogi posibl contractau canolog pe bai'r Cynulliad yn penderfynu mynd ar ôl treialu yn y dyfodol.

**Argymhelliad:**

iv **bod Adran y Cynulliad yn gwerthuso'n llawn yr holl dreialu o'r contractau canolog ar gyfer meddyginiaethau gofal sylfaenol, gan gymryd i ystyriaeth yr holl gostau a'r manteision, gan gynnwys yr effeithiau ar fynediad i wasanaethau fferyllfeydd a meddygon teulu a'r gost o brynu i mewn arbenigwyr, a'i bod yn lledaenu'r gwersi a ddysgwyd cyn bwrw ymlaen â chontractau o'r fath;**

**Cytuno.** Mae Adran GIG y Cynulliad yn cytuno y dylid gwerthuso'n llawn unrhyw dreialu o'r contractau caffael canolog cyn eu hymestyn.

**Argymhelliad:**

v **y dylai'r byrddau iechyd lleol ac Adran GIG y Cynulliad fonitro'r drefn o ragnodi a'r datblygiadau o ran rheoli meddyginiaethau drwy ddefnyddio'r fframwaith rheoli perfformiad newydd a bod Adran GIG y Cynulliad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar y cynnydd i Archwilydd Cyffredinol Cymru;**

**Cytuno** Mae Adran GIG Cymru wrthi'n hel at ei gilydd y targedau Fframwaith Gwasanaeth ac Ariannol (SaFF) ar gyfer 2004-5. Cyflwynwyd targedau'n ymwneud â gweithredu technolegau cyffuriau (ac eraill) a argymhellwyd gan y Sefydliad Cenedlaethol er Rhagoriaeth Glinigol (NICE) a'r Grwp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (ASWMG) ar gyfer eu cynnwys yn y targedau Fframwaith Gwasanaeth ac Ariannol newydd ar gyfer 2004/2005. Cyflwynwyd targed ychwanegol yn gofyn i Fyrddau Iechyd Lleol fodloni saith targed dangosyddion rhagnodi lefel-uchel Grwp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan erbyn Ebrill 2005.

Cynhaliwyd sift cychwynnol o gyflwyniadau targed SaFF ond bydd prosesau pellach i'w dilyn cyn cytuno ar restr derfynol targedau SaFF.

Yn amodol ar gytuno arnynt, bydd Byrddau Iechyd Lleol yn rhoi adroddiad ar eu perfformiad yn erbyn y SaFF yn chwarterol. Bydd Adran GIG y Cynulliad yn falch o rannu'r adroddiadau hyn gydag Archwilydd Cyffredinol Cymru.

**<u>Argymhelliad:</u>**

vi **bod Adran GIG y Cynulliad yn gwneud defnydd llawn o waith Grwp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG) wrth bennu targedau ar gyfer rhagnodi generig a datblygu strategaethau ar gyfer cynyddu'r lefel o ragnodi generig lle y bo'n briodol**:

**Cytuno**. Mae'r AMWSG wedi cytuno i ddefnyddio saith o ddangosyddion rhagnodi lefel-uchel i fonitro patrymau rhagnodi ledled Cymru. Mae rhagnodi generig yn un targed o'r fath. Mae'r Grwp yn cytuno y gall rhagnodi generig priodol wneud arbedion sylweddol heb wahaniaeth o ran canlyniadau triniaethol ac mae'n nodi bod Cymru ar ei hôl hi o ran cyfraddau rhagnodi generig o'i chymharu â Lloegr.

Mae'r AWMSG wedi pennu targed o 78% ar gyfer y canran o eitemau i'w rhagnodi'n enerig yng Nghymru. Bydd y grwp yn monitro ac yn rhoi adroddiad ar waith y Byrddau Iechyd Lleol yn rhagnodi meddyginiaethau generig yn ei gyfarfodydd chwarterol. Bydd y grwp hefyd yn monitro ac yn adrodd ar y canran o eitemau sy'n cael eu paratoi yn enerig ond ni fydd yn pennu targed ar gyfer y paramedr hwn.

Yn benodol bydd yr AWMSG yn monitro ac yn adrodd ar lefel y simvastin a ragnodir yn enerig, fel dangosydd lefel-uchel ar wahân. Ym mis Mai 2003, simvastatin oedd y statin cyntaf i beidio â chael patent. Pwrpas y targed yw cynnal neu wella'r gyfran gyfredol o simvastatin a ragnodir yn enerig ar 45% a fynegir fel canran o gyfanswm y statinau a ragnodir.

Bydd rhaglenni addysgol a anelwyd at ragnodwyr yn targedu meysydd a gwmpasir gan saith o ddangosyddion lefel-uchel. O ran y rhagnodi statin generig mae'r AWMSG yn argymell y dylai'r Byrddau Iechyd Lleol barhau i fonitro archwiliadau gan bractisau sy'n gysylltiedig â gweithredu Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol Clefyd Coronaidd y Galon.

**Argymhelliad:**

vii **y dylai Adran GIG y Cynulliad grynhoi canlyniadau ei gwerthusiadau o'r mentrau sy'n bwriadu gwella'r drefn o ragnodi fel bod modd eu dosbarthu'n hawdd;**

**Cytuno**. Bydd y Grwp Cynghori ar Ragnodi Cymru Gyfan, is-grwp i Grwp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG), yn cynnal gwerthusiad o Gynlluniau Cymhellion Rhagnodi gan Fyrddau Iechyd Lleol. Bydd hyn yn debyg o gychwyn tua diwedd y flwyddyn ariannol hon.

Mae un o ddagnosyddion lefel-uchel AWMSG yn cynnwys targed sy'n ceisio sicrhau bod gan bob Bwrdd Iechyd Lleol gyffurlyfr erbyn 1 Ebrill 2004. Yn ystod y blynyddoedd wedi hynny, bydd y modd y cedwir at y cyffurlyfr hwn yn cael ei fonitro.

Mae Canolfan Adnoddau Meddyginiaethau Cymru yn cyhoeddi data o weithgareddau blynyddol sy'n ymwneud â'r nifer o becynnau dysgu o bell sy'n cael eu cwblhau gan Feddygon Teulu a gweithwyr proffesiynol iechyd eraill.

Rydym yn falch i ystyried gyda'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol sut orau i werthuso ymhellach effaith y Ganolfan Adnoddau a gwaith cynghorwyr sy'n rhagnodi.

**Argymhelliad:**

viii **y dylai Cyfarwyddwr GIG Cymru ofyn i Grwp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG) adolygu'r cyfiawnhad dros ragnodi meddyginiaethau o werth clinigol cyfyngedig ac ystyried pa ddulliau cost-effeithiol eraill sy'n bosibl y tu hwnt i ragnodi, fel darparu cyngor ysgrifenedig ar ddeiet.**

**Cytuno**. Mae'r AWMSG wedi cynnwys 'Cyffuriau sy'n llai addas i'w rhagnodi' fel un o'r saith o ddangosyddion rhagnodi lefel-uchel y bydd yn eu monitro ac yn adrodd amdanynt. Ni phennir targed ar gyfer y paramedr hwn ond bydd y Grwp yn annog y Byrddau Iechyd Lleol a Phractisau Meddygon Teulu i weithio tuag at leihau rhagnodi cyffuriau o'r fath.

Gofynnir i'r AWMSG ystyried pa dulliau cost-effeithiol eraill sy'n bosibl y tu hwnt i gyffuriau rhagnodi.